sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

# Diwygiedig 2018-2033
## Cynllun Datblygu Lleol

# Arholiad i Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin
## Atodiad 2 - Cwestiynau Rhagarweiniol



Mai 2024

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Atodiad 2: Cwestiynau Rhagarweiniol

1. **A yw'r CDLl wedi'i baratoi yn unol â gofynion:**

**a) Y Cytundeb Cyflawni cymeradwy, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau?**

1.1 Ydy, mae'r CDLl wedi'i baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflawni, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar y Cytundeb Cyflawni cychwynnol ar 28 Mehefin 2018, gwnaed nifer o newidiadau iddo yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun. Roedd angen y newidiadau hyn er mwyn adlewyrchu effeithiau Covid-19 ac wedi hynny cyhoeddi Canllawiau CNC ar lefelau ffosffad o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol gwarchodedig. Cyhoeddwyd newidiadau ym mis Tachwedd 2020, Awst 2022, Ionawr 2024.

**b) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)? A**

1.2 Ydy, mae'r CDLl Diwygiedig yn rhoi sylw llawn i ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), y saith nod llesiant cenedlaethol cysylltiedig, yn ogystal â'r nodau llesiant lleol hynny a bennwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ac sydd wedi'u cynnwys yn ein Strategaeth Gorfforaethol 2022–2027.

1.3 Cafodd y gwaith o hyrwyddo a chydnabod llesiant ei blethu i baratoadau'r Cynllun, gan gynnwys trwy'r Papur Pwnc Materion, Gweledigaeth ac Amcanion Strategol (diweddariad diweddaraf Chwefror 2023) a oedd yn asesu cydnawsedd amcanion strategol y Cynllun â'r nodau llesiant lleol. Mae Atodiad 6 i'r ail CDLl Diwygiedig Adneuo yn cysylltu pob polisi strategol ag amcan strategol a'r Nodau Llesiant Cenedlaethol a Lleol. Cafodd ystyriaeth ddyledus i Nodau Llesiant Cenedlaethol a Lleol ei hymgorffori ymhellach yn y Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA). Cyfeirir at Atodiad 2 i'r Ail CDLl Diwygiedig Adneuo.

**c) Deddf Cydraddoldeb (2010)?**

1.4 Ydy, cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y camau perthnasol trwy gydol y broses o baratoi'r CDLl Diwygiedig gan gynnwys y Strategaeth a Ffefrir Cyn-adneuo ac fel rhan o'r fersiwn Adneuo gyntaf o'r Cynllun. Felly, cymerwyd y camau

priodol i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r Asesiad yn helpu i ddangos bod y Cyngor wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol o dan y Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Mae hefyd yn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r Gymraeg.

1.5 Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r ail CDLl Diwygiedig Adneuo, ymgorfforwyd y gofynion mewn perthynas â pharatoi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Ar y cyfan, rhagwelwyd nad oedd y polisïau a arfarnwyd yn yr adroddiad presennol yn debygol o gael effaith andwyol anghymesur ar nodweddion gwarchodedig, er bod sylw clir yn cael ei dynnu at fesurau lliniaru penodol yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (Atodiad I).

2. **A yw'r CDLl wedi bod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol cadarn? A yw holl 'effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol' y Cynllun a'r holl 'ddewisiadau amgen rhesymol' wedi'u nodi, eu disgrifio a'u gwerthuso?**

2.1 Ydynt. Cynhaliwyd Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig fel bod modd gwneud asesiad tryloyw a chyfannol o oblygiadau cynaliadwyedd yr ail CDLl Diwygiedig Adneuo, a chafodd ei gynnal mewn modd ailadroddol ac integredig trwy gydol y broses o lunio'r cynllun. Yn unol ag amrywiol ofynion statudol, mae'n cynnwys yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol ar y cyd, ochr yn ochr ag Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, elfennau o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Nodau Llesiant Lleol a Chenedlaethol, ac ystyriaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd, gan gynnwys Datganiad Ardal CNC a'r Ddyletswydd Adran 6.

2.2 Tra bod y broses gyfan wedi'i chynnwys o fewn yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (sy'n ymgorffori'r Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol) fel un sy'n ategu'r ail CDLl Diwygiedig Adneuo, ar bob cam o ddatblygu'r cynllun awgrymwyd mesurau i liniaru'r effeithiau negyddol a gwneud y mwyaf o'r rhai cadarnhaol. Yn ogystal, cynigiwyd fframwaith monitro cysylltiedig fel bod modd adfer unrhyw effeithiau andwyol annisgwyl yn briodol. Ymhellach, yn nes ymlaen cyhoeddwyd adendwm (a oedd yn ymgorffori'r newidiadau â ffocws) i sicrhau

cydymffurfiaeth weithdrefnol, adlewyrchu sylwadau a gafwyd gan ymgyngoreion cyhoeddus a statudol, ac ymateb i waelodlin economaidd-amgylcheddol newidiol. Yn gyffredinol, canfuwyd y byddai gan y CDLl diwygiedig fuddion sylweddol o ran sicrhau datblygu cynaliadwy o fewn y Sir.

**3. A yw'r CDLl wedi bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cadarn? Lle mae 'effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol' wedi'u nodi, a oes Asesiad Priodol digonol wedi'i gynnal?**

3.1 Ydy. Trwy gydol y gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLl), mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cysylltiedig wedi'i gynnal mewn modd ailadroddol, tryloyw, ac integredig fel rhan o'r broses o lunio'r cynllun ers 2018. Mae'r holl gynigion a dyraniadau a gyflwynir yn y CDLl Diwygiedig wedi bod yn destun sgrinio o dan ofynion y Rheoliadau Cynefinoedd, ac maent wedi cael eu hystyried yn briodol o ran eu heffaith bosibl ar y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol. Er bod yr Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gwreiddiol wedi'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghori yn ei gylch fel un oedd yn ategu'r CDLl Diwygiedig Adneuo cyntaf, oddi ar hynny ychwanegwyd dau atodiad ato – sy'n adlewyrchu'r angen i sicrhau cydymffurfiaeth weithdrefnol yn erbyn y Rheoliadau, yn enwedig mewn perthynas â'r mater sy'n dod i'r amlwg o lygredd maeth gormodol mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol gwarchodedig. Ystyriwyd mesurau lliniaru fel rhan o Asesiad Priodol cynhwysfawr, gyda llawer o'r rhain wedi'u hymgorffori ym mholisïau'r CDLl Diwygiedig. Yng ngoleuni hyn, daeth yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i'r casgliad na fydd y CDLl Diwygiedig yn cael unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd unrhyw Safle Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill.

**4. A oes unrhyw newidiadau sylweddol mewn polisi cenedlaethol neu amgylchiadau lleol wedi bod ers i'r CDLl gael ei roi ar adnau? Os oes, beth yw goblygiadau'r newidiadau hyn ar gyfer y Cynllun? A oes angen mynd i'r afael â hwy drwy baratoi tystiolaeth newydd a/neu newidiadau i'r Cynllun? Beth yw'r amserlen arfaethedig ar gyfer y gwaith hwn?**

4.1 Nid oes llawer o newidiadau sylweddol mewn polisi cenedlaethol nac amgylchiadau lleol wedi bod ers cyhoeddi'r ail CDLl Diwygiedig Adneuo. Fodd bynnag, ym mis Chwefror 2024 cyhoeddwyd Rhifyn 12 o Bolisi Cynllunio Cymru. Rhagflaenwyd hyn gan lythyr gan Brif Swyddog Cynllunio dyddiedig 11 Hydref 2023 mewn perthynas

â mynd i'r afael â'r argyfwng natur drwy'r system gynllunio: diweddariad i Bennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru. Caiff y goblygiadau eu hystyried yn ystod archwiliad y CDLl.

4.2 Cyhoeddwyd Cynllun Sŵn a Seinwedd Cymru 2023-2028 ar gyfer ymgynghori yn ei gylch ar 26 Mehefin 2023. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad a chynnwys y Cynllun mabwysiedig yn cael ei fonitro, gan gynnwys mewn perthynas â chyflawni amcanion creu lleoedd a Seilwaith Gwyrdd a Glas.

**5. A yw strategaeth y CDLl yn gyson/yn gydnaws/yn unol â:**

**a) Polisi a chanllawiau cenedlaethol a Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040?**

5.1 Ydy, mae'r CDLl Diwygiedig wedi'i baratoi gan roi'r sylw a'r ystyriaeth sy'n ddyledus i bolisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol ac mae'n gyson â'i gynnwys a'i ddarpariaethau, ac yn gydnaws â hwy.

5.2 Ystyrir bod y CDLl Diwygiedig yn cydymffurfio'n gyffredinol â Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040. Fel rhan o'u sylwadau ar yr ail Gynllun Adneuo, dywed Llywodraeth Cymru: ‘Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Gaerfyrddin (2018-2033) yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: Cymru'r Dyfodol, fel y nodir ym mharagraffau 2.16 – 2.18 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3).’ Mae'r datganiad o gydymffurfiaeth hwn 'yn seiliedig ar yr hyn a nodir ym Mholisi SP4 ar hyn o bryd, sef darpariaeth tai o 9,704 o gartrefi, Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ategol a'r rhan fwyaf o'r twf hwn wedi'i leoli yn yr aneddiadau Haen 1 a Haen 2.’

5.3 Fodd bynnag, nodir bod gan y datganiad hwn gafeat mewn perthynas â materion a godwyd yn Atodiad 2 o'u llythyr sylwadau yn ymwneud ag anghysondebau sylfaenol â chyfanswm y ddarpariaeth tai yn cael sylw, a deallir eu goblygiadau, nid yw'n bosibl rhoi barn gadarn ar faterion cydymffurfiaeth. Cyfeirir at Bapur Pwnc Twf a Dosbarthiad Gofodol (Cyfeirnod Cyflwyno Dogfen CSD75) a’r Papur Sefyllfa Twf Tai a Dosbarthiad Gofodol (Cyfeirnod Cyflwyno Dogfen CSD64) a ddiweddarwyd ac sydd wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r materion a godwyd mewn perthynas â chydymffurfiaeth a mynd i'r afael â hwy.

**b) Y Nodau Llesiant?**

5.4 Ydy, mae'r CDLl Diwygiedig yn rhoi sylw llawn i ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), y saith nod llesiant cenedlaethol cysylltiedig, yn ogystal â'r nodau llesiant lleol hynny a bennwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ac sydd wedi'u cynnwys yn ein Strategaeth Gorfforaethol 2022–2027.

5.5 Cafodd y gwaith o hyrwyddo a chydnabod llesiant ei blethu i baratoadau'r Cynllun, gan gynnwys trwy'r Papur Pwnc Materion, Gweledigaeth ac Amcanion Strategol (diweddariad diweddaraf Chwefror 2023) sy'n asesu cydnawsedd amcanion strategol y Cynllun â'r nodau llesiant lleol. Mae Atodiad 6 i'r ail CDLl Diwygiedig Adneuo yn cysylltu pob polisi strategol ag amcan strategol a'r Nodau Llesiant Cenedlaethol a Lleol.

5.6 Mae'r thema llesiant hefyd yn cael ei hystyried drwy'r broses Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Cyfeirir hefyd at Atodiad 2 i'r Ail CDLl Diwygiedig Adneuo.

**c) Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru?**

5.7 Ydy. Cyhoeddwyd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru cyntaf gan Lywodraeth Cymru ar 12 Tachwedd 2019. Dylid nodi bod y diwrnod cyhoeddi un diwrnod cyn cyhoeddi'r CDLl Adneuo Cyntaf. Fodd bynnag, mae ei gynnwys wedi cael ei ystyried drwy baratoi'r Ail Gynllun Adneuo.

5.8 Fel rhan o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru lunio Cynllun Morol.

- rhanbarth y glannau (hyd at 12 milltir môr o'r tir)
- y rhanbarth morol (12 i 200 o filltiroedd môr)

5.9 Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru'n cynnwys cynlluniau a pholisïau a fydd yn cyflawni'r canlynol:

- cefnogi ein gweledigaeth ar gyfer moroedd glân, iach, diogel ac amrywiol;
- arwain datblygiad cynaliadwy yn y dyfodol;
- cefnogi twf gofod morol ac adnoddau naturiol ('twf glas')

5.10 Mae Polisi Strategol SP15 (wrth gydnabod yr heriau sylfaenol y mae newid yn yr hinsawdd yn eu peri) yn ategu'r Cynllun Morol ynghylch materion gan gynnwys perygl llifogydd, ac mae SP13 ac SP11 yn ymateb i faterion megis hyblygrwydd a seilwaith gwyrdd a chysylltedd.

**d) Y Datganiad Ardal perthnasol?**

5.11 Ydy, yn y cyd-destun a bennir gan Ddeddf yr Amgylchedd, mae CNC wedi paratoi Datganiad Ardal De-orllewin Cymru. Mae'r datganiad ardal yn nodi'r canlynol:

- Yr adnoddau naturiol ym mhob ardal a'r buddion y maent yn eu rhoi;
- Y cyfleoedd a'r heriau allweddol ar lefel leol;
- Sylfaen dystiolaeth gyffredin gyda gwybodaeth, data a thystiolaeth.

5.12 Mae Datganiad Ardal y De-orllewin yn nodi'r risgiau, y cyfleoedd a'r blaenoriaethau allweddol y mae angen i bob un ohonom fynd i'r afael â nhw i feithrin gwytnwch ein hecosystemau a chefnogi rheolaeth gynaliadwy ar ein hadnoddau naturiol. Dylid nodi bod y camau cychwynnol o baratoi'r Cynllun gan gynnwys y Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir a'r CDLl Adneuo Cyntaf wedi'u gwneud cyn cwblhau'r Datganiad Ardal. Fodd bynnag, mae'r Ail Gynllun Adneuo wedi cael ei lywio nid yn unig gan ei gynnwys ond hefyd gan y dyletswyddau dan Ddeddf yr Amgylchedd. Cyfeirir yn benodol at ddatganiadau Argyfyngau Hinsawdd a Natur y Cyngor, y mae'r Cynllun yn ceisio eu hadlewyrchu – mae gan hyn gysylltiad clir gyda themâu'r Datganiad Ardal ar wyrdroi dirywiad, a gwella, bioamrywiaeth a lliniaru ac addasu i hinsawdd sy'n newid.

5.13 Dywedodd CNC mewn ymateb i'r ail Gynllun Adneuo: ‘Rydym yn cefnogi bwriad polisïau a chynigion y cynllun i alluogi datblygiadau cynaliadwy i gael eu cyflawni a sicrhau bod nodau llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i gyd yn cael eu cydbwyso'n briodol yn y broses o wneud penderfyniadau, fel bod y datblygiad iawn yn digwydd yn y lle iawn.’ Fel rhan o'u sylwadau penodol, mae'r materion hyn naill ai wedi cael eu codi trwy gyfrwng tystiolaeth ychwanegol neu byddant yn faterion i'w hystyried ar y cam archwilio.

**e) Os yw'n Gynllun Datblygu Lleol, y cynllun datblygu strategol perthnasol (pan gaiff ei fabwysiadu)?**

5.14 Nid oes Cynllun Datblygu Strategol ar hyn o bryd yn rhanbarth de-orllewin Cymru. Mae gan Gyd-bwyllgorau Corfforaethol gyfrifoldeb i baratoi Cynllun Datblygu Strategol a Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae paratoi'r CDLl Diwygiedig yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer cydweithio ag awdurdodau cyfagos ar draws y rhanbarth ac mae'n cynnwys paratoi tystiolaeth ar y cyd a fydd o bosibl yn llywio'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Yn hyn o beth, mae gan awdurdodau'r rhanbarthau hanes o gydweithio.

**f) Cynlluniau/strategaethau rhanbarthol a rhaglenni darparwyr cyfleustodau?**

5.15 Ydy, paratowyd y CDLl Diwygiedig yng nghyd-destun y cynlluniau, y strategaethau a'r rhaglenni cyfleustodau rhanbarthol perthnasol. Ystyriwyd y rhain hefyd wrth baratoi polisïau strategol y CDLl, y strategaeth twf, yr amcanion strategol, y strategaeth ofodol a'r hierarchaeth aneddiadau. Mae'r CDLl Diwygiedig, y sylfaen dystiolaeth gysylltiedig a'r papurau cefndir yn nodi sut y mae cynlluniau, strategaethau a rhaglenni cyfleustodau rhanbarthol wedi cael eu hystyried. Mae mynd ati i ymgysylltu wedi bod yn allweddol i'r ymarfer hwn ac mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ymgynghori ag amrywiaeth o ddarparwyr seilwaith a chyfleustodau drwy gydol y gwaith o baratoi'r cynllun fel y manylir yn y Papur Asesu Seilwaith (dogfen gyflwyno CSD78).

**g) Cynlluniau/strategaethau awdurdodau cynllunio lleol cyfagos?**

5.16 Ydy, mae'r CDLl Diwygiedig wedi'i baratoi yn dilyn gwaith parhaus o ymgysylltu â'r holl Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos (Dinas a Sir Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Ceredigion, Sir Benfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Powys ac Awdurdod Parc Bannau Brycheiniog) yn ogystal â sefydliadau hanfodol eraill. Cynhaliwyd y ddeialog hon yn unigol ac ar sail pwnc, ond hefyd trwy Grŵp Cynllunio Strategol De-orllewin Cymru a fforymau eraill sy'n seiliedig ar bynciau. Mae Atodiad 2 o'r ail CDLl Diwygiedig Adneuo yn cyfeirio at sefyllfa bresennol Cynlluniau awdurdodau cyfagos a rhoddwyd ystyriaeth i'r rhain drwy gydol y gwaith o baratoi'r CDLl i sicrhau eu bod yn gydnaws â'i gilydd.

5.17 Cyfeirir at bapur sefyllfa a baratowyd ar y cyd ag awdurdodau yn Rhanbarth De-orllewin Cymru (dogfen gyflwyno CSD67).

**h) Y Cynllun Llesiant neu'r Cynllun Rheoli Parciau Cenedlaethol perthnasol?**

5.18 Ydy, mae'r CDLl Diwygiedig yn rhoi ystyriaeth lawn i ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac i'r nodau llesiant lleol.

5.19 Cafodd y gwaith o hyrwyddo a chydnabod llesiant ei blethu i baratoadau'r Cynllun, gan gynnwys trwy'r Papur Pwnc Materion, Gweledigaeth ac Amcanion Strategol (diweddariad diweddaraf Chwefror 2023) sy'n asesu cydnawsedd amcanion strategol y Cynllun â'r nodau llesiant lleol. Mae Atodiad 6 i'r ail CDLl Diwygiedig Adneuo yn cysylltu pob polisi strategol ag amcan strategol a'r Nodau Llesiant Cenedlaethol a Lleol.

5.20 Caiff y thema llesiant hefyd ei hystyried drwy'r broses Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Cyfeirir hefyd at Atodiad 2 i'r Ail CDLl Diwygiedig Adneuo.

**6. A yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi manteisio ar bob cyfle i gydweithio wrth baratoi'r CDLl a'i sylfaen dystiolaeth?**

6.1 Ydy, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi bod wrthi'n cydweithio ag awdurdodau cyfagos. Bydd hyn yn parhau ac yn datblygu ymhellach fel y bo'n briodol mewn perthynas â datblygu a gweithredu'r CDLl Diwygiedig ond hefyd i gefnogi trefniadau cydweithio rhanbarthol a'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol. Bydd y cydweithio hefyd yn datblygu ymhellach wrth i'r awdurdodau yn y rhanbarth a thu hwnt (gan gynnwys partneriaid eraill) barhau i ymateb ymhellach i'r heriau a achosir gan ffosffadau mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol gwarchodedig, yn ogystal â phroblemau eraill a ddisgwylir o ran ansawdd dŵr a maetholion.

6.2 Mae amseru'r broses o fabwysiadu'r CDLlau cyfredol a dechrau Cynlluniau newydd ar draws y rhanbarth wedi arwain at ddiffyg cysondeb rhwng amserlenni. Er enghraifft, mae Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yng nghamau cynnar y broses o adolygu eu Cynllun, gyda Cheredigion wedi oedi'r gwaith o baratoi cynllun. Yn hyn o beth dim ond Sir Benfro sydd ar amserlen gyson â Sir Gaerfyrddin. Lle nodwyd cyfleoedd i gomisiynu astudiaethau sylfaen dystiolaeth ar y cyd, mae'r rhain wedi'u cynnal ar draws y rhanbarth ond hefyd gyda chymdogion unigol – mae'r papur sefyllfa ar weithio a chydweithio rhanbarthol yn amlinellu gwaith o'r fath lle mae wedi digwydd.

7. **Beth yw strategaeth ofodol y CDLl? Sut mae elfennau allweddol y strategaeth yn rhyngweithio â'i gilydd? A yw'n ddull priodol o gyflawni, rheoli a dosbarthu twf dros gyfnod y Cynllun?**

7.1 Mae Polisi SP1 yn nodi strategaeth ofodol glir ar gyfer twf economi gynaliadwy a gofyniad am dai yn y dyfodol sy'n helpu i wireddu uchelgeisiau strategol craidd y Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n cydnabod bod rôl y Sir fel sbardun cryf ac economaidd ar gyfer twf yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yn rhoi lle canolog i Sir Gaerfyrddin mewn Cymru ffyniannus a chynaliadwy. Mae strategaeth twf y Cynllun wedi'i seilio ar egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn gyson â nodau a dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae strategaeth y Cynllun hefyd yn adlewyrchu arwyddocâd Llanelli fel rhan o Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli a nodwyd ym Mholisi 28 o'r Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040, a Chaerfyrddin fel ardal ar gyfer twf rhanbarthol fel y nodwyd ym Mholisi 29 - Ardaloedd Twf Rhanbarthol - Caerfyrddin a Threfi'r Daugleddau.

7.2 Mae'r ymagwedd strategol yn adeiladu ar y pwyslais corfforaethol ar adfywio a'r cyfleoedd a gyflwynir drwy'r Fargen Ddinesig a thrwy gyfleoedd adfywio a buddsoddi eraill. Ar yr un pryd, y mae hefyd yn cydnabod y cyfleoedd a geir drwy'r economi wledig ac anghenion amrywiol cymunedau ledled y Sir. Mae'r strategaeth yn cydnabod rôl cyflogaeth o ran creu Sir ffyniannus - gyda thwf priodol o ran tai ynghyd â chyfleoedd am swyddi a chyflogaeth.

7.3 Drwy sicrhau bod ein gofynion o ran twf tai yn adlewyrchu, ac yn cefnogi, ein huchelgeisiau economaidd, mae'n galluogi ymagwedd gydgysylltiedig ac integredig er mwyn sicrhau na chaiff y gyd-swyddogaeth o sicrhau twf economaidd ei hystyried ar wahân i dai, ac fel arall.

7.4 Bydd y Strategaeth hon yn ceisio dosbarthu twf drwy hierarchaeth aneddiadau gynaliadwy sy'n deillio o'r opsiwn gofodol a ffefrir (a ystyrir yng nghwestiwn 8). Mae'n cydnabod yr amrywiaeth ar draws y Sir a chyfoeth ei rhinweddau o ran yr amgylchedd, bioamrywiaeth a'i thirlun naturiol ac adeiledig. Wrth gyflawni'r strategaeth hon, mae hefyd yn cydnabod cyfraniad ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin a'i hardaloedd trefol tuag at gyflawni ei gweledigaeth ar gyfer 'Un Sir Gâr'.

8. **Sut cafodd hierarchaeth aneddiadau'r CDLl ei diffinio? A yw'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i ddiffinio'r hierarchaeth yn glir ac yn rhesymegol?**

8.1 Mae'r gwaith o ddatblygu hierarchaeth aneddiadau'r CDLl wedi codi yn sgil yr ystyriaeth a roddwyd i'r opsiynau gofodol ac yn unol â'r amcanion llesiant ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, cynnwys polisi cenedlaethol yr adroddiad Adolygu (Dogfen Gyflwyno rhif CSD1), a thrwy'r broses ymgysylltu, yn benodol drwy'r Fforymau Rhanddeiliaid Allweddol (Dogfennau Gyflwyno CSD223 a CSD225). Mae'r Opsiwn a Ffefrir - Strategaeth Cymunedau Cytbwys a Thwf Cynaliadwy yn ceisio sicrhau twf cytbwys sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion ein cymunedau a chyflawni amcanion strategol ac adfywio'r Cyngor a'r rhanbarth. Ymhellach, caiff y gwaith o greu'r hierarchaeth aneddiadau ei gefnogi trwy gyhoeddi'r Papur Pwnc Rôl a Swyddogaeth (Dogfen Gyflwyno CSD72). Mae'r Papur Pwnc hwn yn rhoi cyflwyniad ar gyfansoddiad y boblogaeth ac aelwydydd; a phwysigrwydd y CDLl Diwygiedig yn erbyn strategaethau corfforaethol ac allanol eraill, sydd wedi caniatáu i'r Awdurdod Lleol ddeall rôl a swyddogaeth yr aneddiadau hynny o fewn y sir. Mae'r Papur yn esbonio ffurfiant a rôl haenau a chlystyrau, ac mae'n rhoi cyfle i werthuso'r dystiolaeth bresennol sy'n ymwneud â'r hierarchaeth aneddiadau, ac i ystyried hefyd ffactorau megis graddfa, capasiti, cyd-destun gofodol, mân wahaniaethau lleol a nodweddion aneddiadau. Mae graddfa a math y twf a ddosrennir i aneddiadau yn dibynnu ar eu rolau unigol, eu swyddogaethau a'u safleoedd o fewn yr Hierarchaeth Aneddiadau. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y CDLl Diwygiedig yn cyfeirio'r rhan fwyaf o dwf tuag at ardaloedd sydd eisoes yn elwa o seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau da, neu lle gellir darparu capasiti ychwanegol. Mae'r fethodoleg yn glir a rhesymegol.

**9. Beth yw'r rhesymeg dros ddosbarthu datblygiadau newydd? A yw'r dull yn gyson â'r Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy?**

9.1 Mae gweledigaeth y CDLl Diwygiedig yn cydnabod y cyfleoedd a ddaw yn sgil amrywiaeth y Sir a'i chymunedau, ynghyd â'r uchelgeisiau adfywio a nodwyd drwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe.

9.2 Fel yr amlinellwyd yn y Papur Pwnc Opsiynau Gofodol (Dogfen Gyflwyno CSD69), ystyrir mai'r Strategaeth Ofodol a Ffefrir yw'r opsiwn gorau i gyd-fynd â'r

weledigaeth. Ystyrir mai'r Strategaeth Ofodol sydd fwyaf ffafriol i ddarparu ar gyfer y Strategaeth Twf a dosbarthu'r twf hwn trwy batrymau datblygu cynaliadwy sy'n cyd-fynd ag egwyddorion creu lleoedd Polisi Cynllunio Cymru. Bydd y Cynllun yn sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf o dai fforddiadwy mewn ardaloedd uchel eu hangen (fel y nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol) ac yn hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy hyfyw. Cydnabyddir hefyd bod gofynion y farchnad yn dylanwadu ar gyflawni twf ac mae'r Cynllun yn ffocysu'r twf hwn mewn aneddiadau sefydledig sy'n cynnig gwasanaethau a chyfleusterau allweddol. Cyfeirir at y modd y mae'r Cynllun yn cydymffurfio â Cymru'r Dyfodol, ac mae'r Papur Pwnc Rôl a Swyddogaeth (Dogfen Gyflwyno CSD72 )wedi dangos bod y CDLl Diwygiedig yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol ac yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni, gan ddarparu fframwaith cadarn ar gyfer datblygu cynaliadwy a arweinir gan greu lleoedd yn Sir Gaerfyrddin.

10. **Pa fethodoleg oedd yn sail i'r broses o ddewis safleoedd? A yw'r safleoedd a ddyrannwyd o ganlyniad:**

   **a) Mewn lleoliadau cynaliadwy ac yn gyffredinol heb gyfyngiadau ffisegol, megis perchenogaeth tir, seilwaith, mynediad, amodau'r ddaear, materion perygl llifogydd, llygredd, tirwedd, bioamrywiaeth a dynodiadau treftadaeth?**

   **b) Yn ddeniadol i'r farchnad (yn y sector preifat a/neu'r sector cyhoeddus) ar gyfer datblygu, yn gallu bodloni'r gofynion polisi a seilwaith a nodir yn y Cynllun, yn hyfyw, ac yn rhai y gellir eu cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun?**

10.1 Mae'r Papur Methodoleg Asesu Safle (Dogfen Gyflwyno CSD101) yn nodi proses tri cham ar gyfer asesu safleoedd ymgeisio, ac ystyriwyd pob safle a nodir yn y Tabl Asesu Safleoedd (Dogfen Gyflwyno CSD103) yn erbyn pro fforma manwl.

10.2 Cam 1 oedd asesiad lefel uchel er mwyn canfod a oedd pob Safle Ymgeisio yn cyd-fynd â lleoliad twf yn y dyfodol, fel y cyflwynwyd yn y Strategaeth a Ffefrir. Ymgynghorwyd â hyn fel rhan o'r Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir.

10.3 Rhannwyd Cam 2 yr asesiad safle yn ddwy ran:

- Roedd Cam 2a yn ceisio nodi safleoedd â chyfyngiadau sylfaenol na fyddai modd eu goresgyn na'u lliniaru. Roedd y rhain yn cynnwys safleoedd sydd oddi mewn i ardaloedd a ddynodwyd am eu bod yn bwysig er cadwraeth natur, treftadaeth ddiwylliannol neu ym mharthau perygl llifogydd TAN 15, neu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr ardaloedd hynny. Nid oedd safleoedd o'r fath yn symud ymlaen i'r cam nesaf. Yn ogystal, cafodd safleoedd yr ystyrid nad oeddent yn gallu darparu ar gyfer pump neu fwy o anheddau eu hidlo allan ar y cam hwn ond cawsant eu hystyried yn erbyn egwyddorion cynllunio cyffredinol fel rhan o'r Papur Pwnc Terfynau Datblygu (Dogfen Gyflwyno Rhif CSD73).

- Asesiad manwl, penodol i safle oedd Cam 2b ac roedd yn cynnwys dadansoddiad o gynaliadwyedd y safle, ei hyfywedd a'r tebygolrwydd y byddai'n cael ei ddatblygu dros gyfnod y cynllun. Roedd y pro fforma hefyd yn ystyried dadansoddiad o fioamrywiaeth, priffyrdd, yr effaith ar y Gymraeg, cyflwr y ddaear ymhlith meini prawf eraill.

10.4 Ar gyfer safleoedd a gymerwyd ymlaen fel dyraniadau neu yr ystyrir eu bod yn ddewisiadau rhesymol eraill, cynhaliwyd sylwebaeth Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol fanwl i'w hasesu yn erbyn y Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, ac yna cymerwyd hwy ymlaen i Gam 3.

10.5 Cafodd safleoedd nad oeddent yn cael eu cario ymlaen o fewn Cam 2b eu hasesu yn erbyn y fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig drwy'r pro fforma.

10.6 Wedyn roedd Cam 3 yn asesu'r safleoedd hynny a aeth rhagddynt drwy'r holl gamau blaenorol, ac a oedd i'w cynnwys yn Ail CDLl Adneuo'r Cyngor. Ar y cam hwn cynhaliwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar bob safle er mwyn sicrhau na fyddai'r Cynllun Adneuo yn cael unrhyw effaith sylweddol (ar ei ben ei hun nac mewn cyfuniad) ar Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd.

11. **A fydd y CDLl yn cael ei ategu gan ganllawiau cynllunio atodol? Os felly, pa bynciau fydd yn cael sylw? Beth yw'r amserlenni ar gyfer mabwysiadu'r canllawiau? Sut y byddant o gymorth i gyflawni'r Cynllun?**

11.1 Bydd, bydd y CDLl Diwygiedig yn cael ei gwblhau drwy gasgliad o Ganllawiau Cynllunio Atodol. Mae dau Ganllaw Cynllunio Atodol wedi'u cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ac yn dilyn hynny cawsant eu cymeradwyo i'w mabwysiadu yn ystod y gwaith o baratoi'r Cynllun. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Canllawiau Cynllunio Atodol Cilfach Tywyn
- Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr

11.2 Bydd y rhain a'r rhai a restrir isod yn cael eu hategu gan Ganllawiau Cynllunio Atodol ychwanegol, a fydd yn cael eu paratoi yn ystod y cyfnod yn arwain at fabwysiadu'r CDLl ac yn ystod cyfnod y Cynllun. Gellir gweld y rhestr hon o Ganllawiau Cynllunio Atodol a'r amserlenni ar gyfer eu paratoi yn Atodiad 3 o'r ail Gynllun Diwygiedig Adneuo (DS: Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a bydd yr amserlenni yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi'r Cynllun). Mae wyth o Ganllawiau Cynllunio Atodol eraill yn mynd i gael eu paratoi a byddant yn destun ymgynghoriad cyn mabwysiadu'r Cynllun Diwygiedig. Y rhain yw:

- Yr Iaith Gymraeg;
- Safleoedd o Bwys ar gyfer Cadwraeth Natur;
- Sicrhau Mannau Agored Cyhoeddus o fewn Datblygiadau Newydd;
- Plastro, Rendro ac Inswleiddio Adeiladau Traddodiadol: Canllawiau ar gyfer Cynaliadwyedd;
- Canllaw Dylunio Blaenau Siopau Sir Gaerfyrddin;
- Canllawiau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth Sir Gaerfyrddin;
- Asesiad o Gymeriad y Dirwedd; a
- Darparu Seilwaith Gwyrdd a Glas o fewn Datblygiadau Newydd.

11.3 Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi i ddarparu rhagor o fanylion ar bolisïau a chynigion penodol ac i gefnogi'r gwaith o ddehongli a gweithredu'r Cynllun.

11.4 Nodir nad oes gan Ganllawiau Cynllunio Atodol yr un statws na phwysau â pholisïau Cynllun Datblygu mabwysiedig. Fodd bynnag, gellir eu hystyried fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Cyfeirir at y datganiad

sefyllfa a baratowyd mewn perthynas â Chanllawiau Cynllunio Atodol (dogfen gyflwyno CSD66).

**12. Beth yw strategaeth y CDLl ar gyfer darparu tai? A yw'n briodol i ddiwallu anghenion yr ardal dros gyfnod y Cynllun?**

12.1 Mae Polisi SP1 yn nodi'r ddarpariaeth twf tai ar gyfer cyfnod y Cynllun. Ategir hyn gan y Papur Rôl a Swyddogaeth (Dogfen Gyflwyno CSD72), y Papur Pwnc Twf a Dosbarthiad Gofodol (Dogfenna Gyflwyno CSD74 a CSD75) a'r ymlyniad wrth Bolisi Cenedlaethol trwy lywio twf tai newydd i ganolfannau cynaliadwy. Cyfeirir at y dull haen a chlwstwr fel y nodir ym Mhennod 10 y CDLl Diwygiedig Adneuo.

13. **Beth yw Ffigur Gofyniad Tai'r CDLl? Sut y cafodd ei gyfrifo?**

13.1 Ffigur gofyniad tai'r CDLl yw 8,882 annedd yn ystod cyfnod y CDLl o 15 mlynedd, ac sy'n cyfateb i 588 annedd y flwyddyn. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer darparu tai newydd mewn ffordd gynaliadwy sy'n cefnogi dyheadau ein cymunedau ac yn darparu hyblygrwydd priodol i ymateb i amcanion tai fforddiadwy'r cyngor.

13.2 Wrth ystyried y potensial am dwf yn y dyfodol yn Sir Gaerfyrddin, nododd Turley nifer o wahanol senarios demograffig ac economaidd y gellid eu defnyddio ar gyfer y cyfnod 2018-2033. (Dogfen Gyflwyno CSD34). Roedd hyn yn ymateb i'r Llawlyfr CDLl drwy ystyried demograffeg, tueddiadau'r gorffennol a ffactorau sy'n seiliedig ar bolisi yn ogystal â'r berthynas â'r economi leol.

13.3 Wrth grynhoi'r senarios twf o fewn y Cynllun, dim ond dwy o'r senarios oedd yn darparu twf aelwydydd cytbwys i gefnogi Opsiwn Twf Strategol a ffefrir yr Awdurdod Lleol. Er ei fod yn gefnogol i nodau strategol cyffredinol y Cyngor, roedd yr amcanestyniad pymtheg mlynedd yn ceisio lefel o gwblhad tai na fyddai'n cyd-fynd â'r cyfraddau adeiladu presennol; fodd bynnag, roedd yr amcanestyniad deng mlynedd yn seiliedig ar dueddiadau yn ceisio lefel is o dwf tai a oedd yn cyd-fynd yn well â strategaeth y CDLl diwygiedig yn ei chyfanrwydd.

13.4 Mae'r Papur Pwnc Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd (Dogfen Gyflwyno CSD70) yn nodi sail resymegol yr Awdurdod Lleol.

14. **Wrth ddiffinio'r Ffigur Gofyniad Tai, a roddwyd sylw digonol i'r amcanestyniadau aelwydydd a phoblogaeth diweddaraf? A roddwyd**

**ystyriaeth i'r prif ddylanwadau lleol ar y galw am dai yn yr ardal (gan gynnwys cyfraddau ffurfio aelwydydd, lefelau mudo, a chymarebau trosi aelwydydd ac ati)?**

14.1 Do, dadansoddwyd yr amcanestyniadau aelwydydd a phoblogaeth diweddaraf ar y cyd â data mwy diweddar o Amcangyfrifon Canol Blwyddyn ac ystod eang o senarios demograffig hanesyddol, gyda rhagdybiaethau mudo amrywiol.

14.2 Mae'r dystiolaeth i ddiffinio'r Ffigur Gofyniad Tai wedi bod trwy dair fersiwn ers dechrau proses y CDLl Diwygiedig. Ar adeg cyhoeddi'r CDLl Adneuo ym mis Chwefror 2023 roedd yr amcanestyniadau swyddogol diweddaraf a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru wedi'u seilio hyd at 2018, gyda senarios demograffig amrywiol yn deillio o'r data sylfaenol hwn, gan gynnwys rhagdybiaethau ar ffrwythlondeb a marwolaethau uwch ac is.

14.3 Nododd y Papur Tai a Thwf Economaidd (Dogfen Gyflwyno CSD34) yr angen i ailosod y prif amcanestyniadau i ystyried y 2 flynedd ychwanegol o ddata hysbys a nodwyd mai'r amcanestyniad 10 mlynedd yn seiliedig ar dueddiadau oedd y senario mwyaf addas, a byddai'n caniatáu hyblygrwydd i ysgogi twf tai cynaliadwy a chyfrannu at gefnogi uchelgeisiau economaidd y sir.

14.4 Gyda golwg ar y gyfradd trosi aelwydydd, roedd data Cyfrifiad 2011 yn gymharol hen ar adeg ysgrifennu – hyd nes y bydd data o Gyfrifiad 2021 yn cael ei ryddhau, ond gyda data Treth Gyngor mwy diweddar ar gael, roedd yn rhesymol cael cyfradd wag o 3.8% ac mae hyn wedi'i gymhwyso a'i osod drwy gydol y cyfnod a ragwelir.

15. **A roddwyd ystyriaeth i senarios twf tai amgen? Os felly, pa senarios amgen oeddynt, pam y cawsant eu diystyru, a pham y dewiswyd yr opsiwn a ffefrir?**

15.1 Yn y cam Strategaeth a Ffefrir, dadansoddwyd ystod o senarios demograffig i ddechrau i lywio'r opsiynau twf. Defnyddiwyd hyn trwy ddefnyddio amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014. Ystyriwyd manylion pob senario a'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r senarios hyn yn adroddiad Edge Analytics 2018.

15.2 Gwnaed gwaith tystiolaethol pellach fel rhan o'r CDLl Diwygiedig Adneuo 1af trwy gyfrwng Adroddiad Edge Analytics 2019. Rhagflaenwyd y dadansoddiad o'r senarios POPGROUP wedi'u hailgyflunio gan broffil demograffig wedi'i ddiweddaru o

Sir Gaerfyrddin. Roedd hwn yn cynnwys elfennau diweddaraf newid yn y boblogaeth (genedigaethau, marwolaethau a mudo), patrymau hanesyddol mudo rhyngwladol a mewnol, yn ogystal ag ystadegau tai a gwblhawyd a dadansoddiad wedi'i ddiweddaru o broffil oedran y sir.

15.3 Fel y trafodwyd yng Nghwestiwn 14, mae'r Papur Tai a Thwf Economaidd (Dogfen Gyflwyno CSD34) yn diweddaru'r ystod o senarios demograffig ac yn defnyddio amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018 gyda 2 flynedd arall o ddata amcangyfrifedig. Mae hyn yn ffurfio'r sail i Bennod 8 o'r CDLl Diwygiedig Adneuo, a'r opsiwn twf a bennir yn y cynllun. Mae'r senario hon wedi'i diweddaru yn golygu y gellir diystyru fersiynau cynharach o senarios twf amgen o ystyried eu bod wedi dyddio, ac mae'n rhoi darlun mwy realistig o dwf Sir Gaerfyrddin.

15.4 Dangosir bod yr opsiwn a ffefrir yn realistig ac yn gyflawnadwy wrth ei feincnodi yn erbyn cyfraddau cyflawni'r gorffennol ac mae'n cefnogi'r prif ddyhead economaidd ac adfywio ar gyfer y Sir.

16. **Beth yw ffigur cyflenwad tir ar gyfer tai'r CDLl a sut y cafodd ei gyfrifo?**

16.1 Y ffigur gofyniad tir ar gyfer tai yw 8,822 ar gyfer y cyfnod 2018-2033. Wrth gyflawni nifer y cartrefi a nodir uchod yn y Cynllun, mae'n cynnwys lefel briodol o hyblygrwydd i sicrhau bod y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir yn cael ei chyflawni drwy gydol cyfnod y cynllun. Gosodir yr hyblygrwydd hwn ar 10% o hyblygrwydd ac felly caiff ei gyfrifo fel 882 annedd ychwanegol. Mae'r hyblygrwydd hwn sy'n rhan annatod o'r cyflenwad (cynnydd) yn sicrhau bod twf cynaliadwy yn cael ei gyflawni a bod unrhyw broblemau annisgwyl posibl o ran y gallu i gyflawni yn cael eu goresgyn. Bydd hyn yn caniatáu i'r cynllun a'r taflwybr fod yn wydn ac yn ddigon hyblyg i ddelio ag unrhyw newidiadau annisgwyl, gan barhau i alluogi'r gofyniad tai i gael ei gyflawni.

16.2 Dylid cyfeirio at y Papur Twf a Dosbarthiad Gofodol wedi'i diweddaru a phapur sefyllfa ynghylch yr ystyriaeth a roddir i'r hyblygrwydd wedi ei ddefnyddio (Dogfennau Cyflwyno CSD75 a CSD64 yn ôl eu trefn).

17. **A yw'r taflwybr tai a bennir yn y CDLl yn realistig?**

17.1 Ydy, mae'r taflwybr tai yn ganlyniad dadansoddiad fesul cam sy'n benodol i safle. Paratowyd nifer y tai y rhagwelir y byddant yn cael eu cwblhau ar safleoedd trwy ddeialog â pherchnogion safleoedd a datblygwyr, a lle na fu hyn ar gael drwy ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael o ran data ceisiadau cynllunio a gwybodaeth leol. Cyfeirir hefyd at yr amserlenni datblygu a nodir yn y Datganiad Tir Cyffredin ar gyfer safleoedd allweddol a gall fod yn wahanol i'r rhai sydd yn y taflwybr tai diweddaraf. Caiff unrhyw newidiadau eu hadlewyrchu yn nhaflwybr wedi ei diweddaru wedi ei seilio 31 Mawrth 2024.

18. **Beth yw strategaeth y CDLl ar gyfer darparu tai fforddiadwy? A yw wedi cael ei lywio gan asesiad dibynadwy a diweddar o'r farchnad (Asesiad o'r Farchnad Dai Leol/LHMA)? Pa angen a nodwyd o ran graddfa, deiliadaeth a math o dai a sut y bydd yr angen hwn yn cael ei ddiwallu dros gyfnod y Cynllun?**

18.1 Wrth asesu'r angen am anheddau fforddiadwy, rhoddir sylw i'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) diweddaraf ar gyfer Sir Gaerfyrddin, tra bod y gwaith o ddatblygu Asesiad 2024 wedi'i ddiweddaru yn mynd i gael ei gwblhau yn Haf 2024. Nodir llinell amser ac ystyriaeth yr Awdurdod Lleol ar gyfer LHMA 2024 yn y Datganiad Sefyllfa LHMA sy'n ffurfio rhan o'r dogfennau cyflwyno.

18.2 Yn LHMA 2019, nodir ymraniad 76% / 24% rhwng yr aelwydydd ac arnynt angen tai ar y farchnad a'r aelwydydd hynny ac arnynt angen tai fforddiadwy. I ddibenion yr LHMA, mae'r Sir wedi cael ei rhannu i 4 Ardal Gweithredu ar Dai Fforddiadwy, ac mae cyfran sylweddol o'r aelwydydd ac arnynt angen tai fforddiadwy yn Ardal Weithredu Llanelli (47%). Mae'r LHMA hefyd yn nodi math a maint y tai sydd eu hangen drwy'r Sir, ac mae gan Lanelli amrediad cyson o angen ar draws cartrefi 1, 2 a 3 ystafell wely. Yn gyffredinol ar draws yr Ardaloedd Gweithredu eraill, mae angen datblygu tai 2 a 3 ystafell wely yn y sir er mwyn diwallu'r angen am dai fforddiadwy. Wrth ddadansoddi'r data hwn, gwelir cydberthynas gref rhwng lleoliad yr angen am dai fforddiadwy a dosbarthiad y twf tai arfaethedig a nodir yn strategaeth y CDLl a'r fframwaith aneddiadau.

18.3 Er bod y CDLl a'r system gynllunio yn ceisio cefnogi darparu tai fforddiadwy, nid yw ond un ymhlith amryw o fecanweithiau a ddefnyddir i fodloni'r angen hwn. Adlewyrchir hyn yng Nghynllun Cyflenwi Tai Fforddiadwy'r Cyngor (dogfennau

cyflwyno CSD39a a CSD39b ) sy'n pennu gweledigaeth ar gyfer darparu tai fforddiadwy. Nodir cyfraniad y CDLl at y targed yn SP5 drwy:

- Ddarparu tai fforddiadwy ar-safle fel canran o'r holl ddatblygiad, neu ar safleoedd a gaffaelir gan ddarparwyr tai cymdeithasol;
- Tai fforddiadwy oddi ar y safle yn lle darpariaeth ar-safle;
- Cyfraniadau ar ffurf symiau cyfnewid gan drydydd partïon i gefnogi'r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy a
- Thai i fodloni Anghenion Lleol.

18.4 Cyfeirir hefyd at Astudiaeth Anghenion Gwledig Sir Gaerfyrddin 2019 (Dogfen Gyflwyno CSD37) sy'n nodi bod cyfran uwch o anheddau mwy yn yr ardaloedd gwledig, a bod hynny'n cyfrannu at brisiau tai uwch. Mae'r CDLl yn ceisio cefnogi twf unedau mwy fforddiadwy mewn cymunedau gwledig, er mwyn hyrwyddo datblygiadau i brynwyr tro cyntaf neu rai ar aelwydydd incwm isel.

## 19. Beth yw targed tai fforddiadwy'r CDLl? Sut y cafodd ei gyfrifo? A yw'n gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i gyflawni?

19.1 Yn ystod cyfnod y cynllun, disgwylir i gynigion datblygu o fewn y CDLl Diwygiedig ddarparu cyfanswm o 1,900 o anheddau fforddiadwy ar draws y Sir. Cyfrifwyd y targed hwn trwy'r dulliau canlynol:

- Yr anheddau fforddiadwy a gwblhawyd ar safleoedd ers dyddiad sylfaen y CDLl;
- Nifer yr anheddau fforddiadwy sy'n cael caniatâd cynllunio ar geisiadau cynllunio;
- Cyfrifo'r cyfraniad tai fforddiadwy posibl o ganiatadau cynllunio amlinellol lle penderfynir ar darged canrannol mewn cytundebau S106;
- Ar gyfer dyraniadau'r CDLl diwygiedig newydd, caiff y targedau canrannol arfaethedig a bennir ym mholisi AHOM1 eu mesur yn erbyn y niferoedd tai dangosol a nodir ym Mholisi HOM1; ac
- Ystyried cyfraniadau penodol i safle drwy nodi safleoedd 100% fforddiadwy.

19.2 Ar gyfer y cyfrifiad uchod, cyfeirir at y rhestr dyrannu tai ym Mholisi HOM1 sy'n dangos y ddarpariaeth bosibl o'r safleoedd tai a ddyrannwyd.

19.3 Yn ogystal â'r uchod, caiff lwfans ar gyfer tai fforddiadwy ei wneud o hap-safleoedd mawr. Mae hyn yn seiliedig ar safleoedd a fabwysiadwyd ar hyn o bryd yng Nghynllun Datblygu Lleol 2006-2021, ond nad ydynt yn cael eu cymryd ymlaen fel dyraniadau yn y CDLl Diwygiedig.

19.4 Yn olaf mae'r Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi nodi bod tai i ddiwallu angen lleol, gweithwyr allweddol, neu Ddatblygiadau Un Blaned wedi'u cwblhau. Mae'r ffigurau cwblhad hyn wedi'u cyfartaleddu i gyfrif am y cyfnod sy'n weddill yn y Cynllun a chânt eu hychwanegu at darged cyffredinol y Sir gyfan ym Mholisi SP5. I gloi, mae'r Awdurdod Lleol wedi ceisio gwneud y mwyaf o'i allu i ddarparu tai fforddiadwy drwy'r system cynllunio defnydd tir.

20. **A fydd targed tai fforddiadwy'r CDLl yn diwallu'r angen am lety rhent cymdeithasol a chanolradd a nodwyd yn yr LHMA? Os na fydd, sut y bydd yr angen hwn yn cael ei ddiwallu dros gyfnod y Cynllun?**

20.1 Bydd targed tai fforddiadwy'r CDLl yn diwallu dros 82% o'r angen am dai fforddiadwy a nodwyd yn yr LHMA. Fel y cadarnhawyd yn y Canllawiau Cenedlaethol, rhaid cydnabod bod yr angen a nodwyd yn yr LHMA yn cynrychioli maint y bwlch fforddiadwyedd yn y farchnad ac nid y CDLl ei hun yw'r unig ddull o gyflenwi tai fforddiadwy i helpu i fynd i'r afael â hyn. Bydd cyfraniad y Cynllun yn ffurfio rhan o sawl ffrwd o gyflenwad tai fforddiadwy i ddiwallu'r angen hwn, gan gynnwys y Grant Tai Cymdeithasol a chynlluniau eraill a ariennir gan grant cyfalaf/refeniw, cynlluniau hunan-ariannu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ad-drefnu stoc sy'n bodoli eisoes, cynlluniau prydlesu'r sector preifat, cyflawni dyletswyddau digartrefedd i'r sector rhentu preifat ac ailddefnyddio eiddo gwag. Dylid cyfeirio at y datganiad sefyllfa mewn perthynas â'r LHMA (Dogfen Cyflwyno CSD65)

21. **Sut y diffiniwyd targed(au) tai fforddiadwy penodol i safle'r CDLl? Ym mha leoliadau daearyddol y bydd y targed(au) yn berthnasol?**

21.1 Mae'r Asesiad Hyfywedd Ariannol (Dogfennau Gyflwyno CSD31 a CSD32) yn ymateb i'r canllawiau yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cynllunio Lleol gynnal arfarniad hyfywedd lefel uchel i asesu'r lefelau eang

o hyfywedd datblygu mewn gwahanol feysydd yn y farchnad dai, a allai arwain at geisio ystod o ganrannau tai fforddiadwy ar draws ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

21.2 Mae'r Astudiaeth wedi defnyddio tystiolaeth y farchnad o brisiau tai o amrywiaeth o safleoedd datblygu ar draws Sir Gaerfyrddin. Ar gyfer costau datblygu, mae'r Astudiaeth yn dibynnu ar gyfres o sesiynau Grŵp Astudiaeth Hyfywedd sydd wedi'u cynnal; tystiolaeth o asesiadau hyfywedd sydd wedi'u cynnal ar gyfer achosion Rheoli Datblygu penodol; yn ogystal â data gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu (BCIS).

21.3 Er mwyn i unrhyw gynnig datblygu fod yn "hyfyw yn ariannol", rhaid dangos ei fod yn gallu darparu elw cystadleuol i ddatblygwr, wedi'i addasu yn ôl risg y farchnad; a gwerth tir sy'n ddigonol i annog tirfeddiannwr i werthu ar gyfer y defnydd arfaethedig. Mae'r Astudiaeth yn dibynnu ar gyfuniad o dystiolaeth o'r farchnad, achosion hyfywedd sydd wedi'u sefydlu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid y diwydiant.

21.4 Wrth ystyried targedau penodol i safle, nid yw'r rhain yn cael eu hystyried ar sail ddaearyddol ond yn ôl maint y safle. Dangosir hyn drwy'r Asesiad Hyfywedd Ariannol a chânt eu hystyried ymhellach yng Nghwestiwn 22 isod.

22. **Sut cafodd y trothwyon safleoedd tai fforddiadwy eu diffinio? A ydynt wedi cael eu llywio gan dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy?**

22.1 Mae'r polisïau tai fforddiadwy sy'n ystyried cyfraniadau ar y safle yn berthnasol i safleoedd o ddeg uned neu fwy. Sefydlwyd y trothwy hwn gan yr astudiaeth Asesiad Hyfywedd Ariannol.

22.2 Y prif gasgliad sy'n dod i'r amlwg yw y dylai fod yn hyfyw i ddatblygiadau preswyl a arweinir gan y farchnad i gyflenwi'r canrannau canlynol o dai fforddiadwy ar safleoedd o 10 neu fwy ac fel rhan o'r cymysgedd cyffredinol o fathau o anheddau a deiliadaethau:

- Ar safleoedd sy'n cynnwys 10 – 19 o gartrefi, dylid darparu 10% fel tai fforddiadwy;
- Ar safleoedd sy'n cynnwys 20 – 50 o gartrefi, dylid darparu 12% fel tai fforddiadwy;

- Ar safleoedd o 51 – 100 o gartrefi, dylid darparu 20% fel tai fforddiadwy; ac
- Ar safleoedd o fwy na 100 o gartrefi; Dylid darparu 25% fel tai fforddiadwy.

22.3 Canfu'r Astudiaeth Asesiad Hyfywedd Ariannol hefyd, yn gyffredinol, nad yw'n realistig bellach disgwyl i ddatblygiadau newydd o lai na 10 annedd ddarparu tai fforddiadwy ar y safle. Fodd bynnag, dylai pob datblygiad llai yn y categori hwn allu gwneud cyfraniad ariannol tuag at ddarparu cartrefi fforddiadwy oddi ar y safle, a gyfrifir yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy presennol y Cyngor.

22.4 Mae'r Awdurdod Lleol wedi gwneud diweddariad i'r Asesiad Hyfywedd Ariannol yn 2024 sy'n ceisio diweddaru rhai o'r rhagdybiaethau o fewn gwerthoedd tai fforddiadwy. yn yr Ardaloedd Gweithredu Tai Fforddiadwy. Mae'r ffigurau newydd hyn yn awgrymu y gellir cyrraedd y targedau tai fforddiadwy a nodir ym mholisi AHOM1 y CDLl Diwygiedig. Cyfeirir at ddogfennau cyflwyno CSD31 a CSD32.

23. **Sut y bydd cyfraniadau oddi ar y safle yn cael eu defnyddio i ddarparu tai fforddiadwy?**

23.1 Bydd angen cyfraniadau oddi ar y safle tuag at dai fforddiadwy gan gynigion sy'n cynnwys 1 – 9 annedd a chodir tâl ar sail eu harwynebedd llawr (cost fesul metr sgwâr). Fodd bynnag, bydd cynigion am anheddau sengl yn y categori annedd 3 ystafell wely i 4 unigolyn neu lai, sy'n cynnwys llai nag 88 metr sgwâr, wedi'u heithrio yn unol â Pholisi AHOM1.

23.2 Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar dai fforddiadwy yn cael eu paratoi i gefnogi polisïau'r CDLl a byddant yn darparu arweiniad pellach ar sut y dylid gwario'r cyfraniadau. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau sy'n ymwneud â dull dilyniannol i sicrhau bod y cyfraniadau'n cael eu gwario o fewn yr un annedd lle bynnag y bo modd.

24. **Beth yw strategaeth y CDLl ar gyfer darparu llety Sipsiwn a Theithwyr? A yw wedi'i lywio gan Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA)? A yw'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn nodi angen am leiniau newydd (parhaol a thramwy) dros gyfnod y Cynllun? Sut bydd yr angen yn cael ei ddiwallu?**

24.1 Cynhaliodd yr Awdurdod Lleol Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2019 a oedd yn nodi'r ddarpariaeth o leiniau sipsiwn a theithwyr yn y Sir yn awr ac yn y dyfodol. Ystyriwyd yr angen am leiniau ychwanegol ar gyfer tri chyfnod amser.

Sipsiwn a theithwyr yn 2019:

- Yr angen sydd heb ei ddiwallu: 19 llain
- Yr angen tebygol a fydd heb ei ddiwallu mewn 5 mlynedd: 23 llain
- Yr angen tebygol a fydd heb ei ddiwallu yn 2033: 31 llain

Siewmyn Teithiol - Anghenion ychwanegol am leiniau yn 2019

- Yr angen sydd heb ei ddiwallu ar hyn o bryd: 4 llain
- Yr angen tebygol a fydd heb ei ddiwallu mewn 5 mlynedd: 4 llain
- Yr angen tebygol a fydd heb ei ddiwallu yn 2033: 6 llain

24.2 Ni wnaeth Asesiad 2019 dynnu sylw at unrhyw dystiolaeth o ran patrwm clir o wersylloedd ac nid yw'r cyfrifiadau o garafanau dilynol bob dwy flynedd wedi nodi unrhyw angen am safle symudol yn Sir Gaerfyrddin. Cyflwynwyd yr Asesiad i Lywodraeth Cymru, ond ni dderbyniwyd adborth pellach hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae'r CDLl Diwygiedig wedi dyrannu dau safle newydd o fewn y Cynllun i ddiwallu'r angen a nodwyd, a bydd y safleoedd hyn yn cael eu hystyried yn ystod y broses archwilio.

24.3 Mewn perthynas ag Asesiad 2024 wedi'i ddiweddaru, mae'r Awdurdod Lleol wedi cyhoeddi Datganiad Sefyllfa (dogfen cyflwyno CSD63) i ystyried ei ddull o gynnal Asesiad 2024 wedi'i ddiweddaru; fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar y fethodoleg ar gyfer gwneud hyn.

**25. Beth yw strategaeth y CDLl ar gyfer cyflogaeth? A yw wedi cael ei lywio gan adolygiad tir cyflogaeth? A yw'n gyson â gofynion polisi cenedlaethol? Ac a yw wedi rhoi sylw i'r prif ysgogwyr ar gyfer newid yn y farchnad gyflogaeth?**

25.1 Paratowyd y strategaeth gyflogaeth a'r sylfaen dystiolaeth gysylltiedig yn unol â Chanllawiau Ymarfer Llywodraeth Cymru 'Adeiladu Sylfaen Dystiolaeth Datblygu Economaidd i Gefnogi Cynllun Datblygu Lleol' (2015). Mae'r canllawiau hyn yn cynghori y dylid casglu data ar 2 lefel, sef yn lleol ac yn fwy na lleol.

25.2 Ar y lefel leol, comisiynodd yr Awdurdod ymgynghorwyr i gynnal Astudiaeth Tai a Thwf Economaidd yn benodol i ddarparu tystiolaeth i gyfrannu at baratoi'r Ail CDLl Diwygiedig Adneuo.

25.3 Ar y lefel 'fwy na lleol', comisiynodd yr Awdurdod (gyda Chyngor Sir Penfro) ymgynghorwyr i gynnal *Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir ar gyfer Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin* (Dogfen Gyflwyno CSD41), a'r *Astudiaeth Tai a Thwf Economaidd* (Dogfen CSD34).

25.4 Mae gwaith adolygu cyflogaeth ar lefel leol hefyd yn cael ei wneud yn fewnol bob blwyddyn, y diweddaraf yw *Adolygiad Tir Cyflogaeth 2023* (Dogfen Gyflwyno CSD97). Mae strategaeth y CDLl ar gyfer cyflogaeth wedi cael ei llywio gan y gwahanol ddarnau hyn o waith.

25.5 Sefydlodd Astudiaeth y Ddwy Sir ddadansoddiad meintiol o'r galw a ragwelir am safleoedd cyflogaeth ar lefel fwy na lleol, ac roedd hyn yn cael ei ategu gan dystiolaeth y farchnad a chyflogwyr mewn perthynas â galw'r farchnad. Cafodd y cysylltiadau rhwng cydraddoli lefelau tir cyflogaeth a swyddi gyda'r gofyniad am dwf tai newydd i'r Sir eu sefydlu ymhellach gan yr Astudiaeth Tai a Thwf Economaidd.

25.6 O ganlyniad, mae Polisi Strategol SP7: Cyflogaeth a'r Economi yn gosod y fframwaith i alluogi lefel gytbwys o dir cyflogaeth i gael ei darparu ar gyfer y swyddi newydd ac a nodir trwy'r astudiaethau uchod. Mae hyn yn cael ei ystyried yn ddull cadarnhaol ac nad yw'n gyfyngol i sicrhau bod ystod a chymysgedd o safleoedd ar gael ar draws y Sir hyd at 2033, gan ddarparu digon o gyfleoedd ar gyfer buddsoddiad parhaus heb lesteirio'r cyflenwad tai.

25.7 Mae cyflawni portffolio eang a chytbwys o ddefnydd cyflogaeth yn ganolog i'r strategaeth economaidd. Bydd hyn yn galluogi'r economi leol i ddenu defnydd cyflogaeth dwys â gwerth ychwanegol uwch gan gynnwys gwyddorau bywyd, adeiladu, ynni a datgarboneiddio, a sectorau telathrebu. Mae hyn yn ychwanegol at gefnogi a chynnal y sylfaen weithgynhyrchu sylweddol a defnyddiau dosbarth B traddodiadol sy'n agwedd bwysig ar yr economi leol ac yn sbardun twf iddi, yn awr ac yn y dyfodol.

25.8 Mae'r amcanestyniad sylfaenol yn hyrwyddo ffurfiau cynaliadwy o dwf a fydd yn helpu i leihau'r angen am all-gymudo a hyrwyddo cymunedau mwy hunangynhwysol, rhyng-gysylltiedig yn unol â Gweledigaeth y CDLl. Ystyrir bod y lefel hon o dwf yn fwyaf ffafriol i sicrhau cydbwysedd rhwng nifer y cartrefi a ddarperir a'r cyfleoedd gwaith a ddisgwylir (yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru).

26. **A yw'r CDLl yn dyrannu tir ar gyfer datblygu cyflogaeth newydd? Os felly, sut mae'r gofyniad wedi'i ddiffinio? A yw'r safleoedd a ddyrannwyd wedi bod yn destun chwiliad dilyniannol?**

26.1 Mae Polisi Strategol SP7: Cyflogaeth a’r Economi yn dyrannu 71.21 hectar o dir cyflogaeth newydd dros gyfnod y Cynllun hyd at 2033.

26.2 Mae'r gofyniad tir cyflogaeth wedi'i lywio a'i ddiffinio gan yr amrywiol astudiaethau a amlygwyd yng nghwestiwn 25 uchod.

26.3 Mae TAN 23 yn ystyried ‘efallai y bydd y targedau darparu tir yn uwch na’r galw disgwyliedig, i ddarparu ar gyfer y siawns i ateb y galw.’ Mae’r Canllawiau Ymarfer sy’n cyd-fynd â’r Nodyn Cyngor Technegol (Awst 2015) yn ystyried, lle gellir cyfiawnhau hynny, efallai y bydd y targedau darparu tir yn uwch na’r galw disgwyliedig, i ddarparu ar gyfer y siawns bod yr asesiadau’n rhy isel ac i sicrhau nad oes unrhyw gyfleoedd yn cael eu colli. Wrth gydnabod pwysigrwydd peidio â dibynnu dim ond ar ragolygon cyflogaeth pan eir ati i adnabod portffolio o dir cyflogaeth, mae Astudiaeth y Ddwy Sir yn pwysleisio galw a hyder busnesau brodorol i aros a thyfu, a dyhead gan randdeiliaid i warchod manteision lleoliadol ac asedau strategol ar gyfer twf yn y dyfodol.

26.4 Bydd cyfleoedd ar gyfer twf economaidd yn cael eu hwyluso trwy gyfeirio datblygiadau sy'n cynhyrchu cyflogaeth i'r lleoliadau mwyaf priodol a chynaliadwy, yn aml gan gefnogi ehangiad busnesau presennol a sicrhau perthynas ofodol gref rhwng tai a thwf cyflogaeth.

26.5 Mae'r gofyniad am dir cyflogaeth wedi cael ei lywio gan yr amcanestyniadau demograffig sy'n sail i'r CDLl Diwygiedig i sicrhau cysondeb â'r gofyniad am dai.

26.6 Ynghyd â chanfyddiadau *Astudiaeth y Ddwy Sir*, ystyrir bod canlyniadau economaidd y cynnydd a ragwelir yn nifer y swyddi a nodir yn yr Astudiaeth Tai a Thwf

Economaidd yn ddigonol ar gyfer y CDLl Diwygiedig ac y byddant yn sicrhau nad yw'r economi leol yn cael ei chyfyngu.

26.7 Mae'r safleoedd a ddyrannwyd wedi bod yn destun chwiliad dilyniannol. Roedd yr holl ddyraniadau cyflogaeth presennol [yn y CDLl mabwysiedig] yn cael eu hystyried yn safleoedd treigl posibl ac felly'n ddarostyngedig i'r un asesiad yn erbyn meini prawf cynaliadwyedd ac amgylcheddol ochr yn ochr â'r holl safleoedd ymgeisio newydd. Roedd nodi cyfyngiadau posibl drwy'r asesiad hwn yn llywio addasrwydd y portffolio o safleoedd cyflogaeth arfaethedig.

26.8 Mae cyswllt agos wedi'i gynnal gyda'r Is-adran Datblygu Economaidd wrth baratoi'r CDLl ac yn y portffolio tir cyflogaeth sy'n datblygu. Mae llawer o'r safleoedd arfaethedig yn strategol eu natur, mae ganddynt gefnogaeth gorfforaethol a chânt eu hystyried yn hanfodol i dwf economaidd disgwyliedig y Sir. Ymhellach, mae rhai o'r safleoedd eisoes yn elwa o ganiatâd cynllunio a/neu uwchgynlluniau.

27. **A fydd y CDLl yn darparu amddiffyniad ar gyfer safleoedd cyflogaeth presennol? Os felly, pa amddiffyniad fydd yn cael ei roi, a sut mae'r safleoedd wedi'u dewis?**

27.1 Mae'r safleoedd cyflogaeth sefydledig presennol eisoes yn gwneud cyfraniad pwysig i sylfaen economaidd y Sir ac maent wedi'u nodi ar Fap Cynigion y CDLl. Caiff y safleoedd hyn eu monitro'n flynyddol yn yr Adolygiad Tir Cyflogaeth. Yn yr Adolygiad Tir Cyflogaeth diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023, roedd y safleoedd cyflogaeth presennol yn y Sir yn dod i gyfanswm o 457ha. Cynhaliwyd asesiad manwl o dir cyflogaeth presennol fel rhan o'r gwaith o baratoï'r CDLl diwygiedig; roedd hyn yn golygu rhesymoli a newid ardaloedd safle a nodwyd lle'r oedd angen.

27.2 Roedd Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir yn pwysleisio pwysigrwydd y portffolio cyflogaeth presennol wrth gyfrannu at sylfaen economaidd y Sir a helpu i gynnal lefel gynaliadwy o dir cyflogaeth, ac roedd yn argymell y dylid diogelu safleoedd o'r fath.

27.3 Bydd diogelu safleoedd presennol yn helpu i ddiwallu anghenion cyflogaeth yr economi leol ac ehangach. Mae'r Adolygiadau Tir Cyflogaeth blynyddol wedi dangos parhad defnydd a throsiant safleoedd o'r fath trwy ddwysáu ac ailwampio safleoedd ac adeiladau.

27.4 Mae Polisi *EME1: Cyflogaeth – Diogelu Safleoedd Cyflogaeth* yn cydnabod bodolaeth yr ardaloedd cyflogaeth hyn ac yn ceisio diogelu eu defnydd yn y dyfodol at ddibenion cyflogaeth. Ymhellach, mae Polisi *EME2: Cyflogaeth – Estyniadau a Dwysáu* yn caniatáu ymestyn neu ddwysáu defnydd cyflogaeth ar safleoedd presennol; mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer unrhyw safleoedd o'r fath nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol, sy'n wag, neu sy'n dirywio.

28. **Beth yw strategaeth y CDLl ar gyfer datblygu adwerthu? A yw'n ystyried y twf a ragwelir mewn sectorau eraill, yn enwedig tai a chyflogaeth, dros gyfnod y Cynllun?**

28.1 Mae strategaeth adwerthu'r CDLl yn adlewyrchu egwyddorion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol datblygu cynaliadwy sy'n tanategu'r Cynllun. Mae'n ceisio adlewyrchu natur newidiol adwerthu a'r angen i ganol trefi traddodiadol addasu i gyd-fynd â'r newidiadau hynny. Mae'r Strategaeth yn ceisio gwarchod a gwella rôl canolfannau adwerthu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn atyniadol fel canol trefi, cyrchfannau siopa, masnachol a hamdden, a gwarchod darpariaeth adwerthu leol sydd wedi'i sefydlu yn y sir, yn ogystal â'r busnesau lleol sydd wrth wraidd y ddarpariaeth honno. Mae hefyd yn ceisio lleoli darpariaeth adwerthu a'i llywio tuag at fannau cynaliadwy sy'n hygyrch ar drafnidiaeth gyhoeddus neu ar lwybrau teithio llesol er mwyn lleihau'r angen i deithio. I'r perwyl hwn, mae'r strategaeth adwerthu yn cyd-fynd â strategaethau twf a gofodol y CDLl sy'n nodi canolfannau adwerthu a masnachol mewn lleoliadau sydd fwyaf hygyrch i'r boblogaeth bresennol a'r ardaloedd a nodwyd ar gyfer twf a datblygiad yn y CDLl diwygiedig.

28.2 Mae Polisi SP2 Adwerthu a Chanol Trefi yn nodi'r hierarchaeth adwerthu ar gyfer y CDLl Diwygiedig ac yn nodi'r canol trefi o fewn y Sir fel Canol Trefi Uwch, Canolig neu Is. Mae'r polisi'n ceisio cydnabod patrwm cyffredinol y ddarpariaeth mewn hierarchaeth draddodiadol o ganolfannau, sy'n amrywio rhwng mân ddarpariaeth leol a'r canolfannau mwy sy'n darparu dewis mwy dros ystod ehangach o gynnyrch. Mae'r canolfannau mwy hefyd yn gweithredu fel lleoliadau ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig ym maes hamdden ac adloniant, gan gynnwys sinemâu a bwytai ac ati, ac ar gyfer defnydd swyddfa masnachol, gan gynnwys cyfreithwyr, cyfrifwyr a gwerthwyr tai ac ati. Caiff y canolfannau hyn eu nodi a'u categoreiddio yn seiliedig ar eu hygyrchedd i'r boblogaeth leol a graddfa ac amrywiaeth y defnyddiau sydd i'w cael yno.

28.3 At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth leol yn cynrychioli nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen o ddydd i ddydd (eitemau cyfleustra), ac y gall trigolion wneud teithiau byr mynych i'w nôl, tra bo'r canolfannau mwy nid yn unig yn darparu'r cyfleusterau hynny, ond hefyd yn darparu eitemau mwy arbenigol (nwyddau cymharu) y bydd siopwyr yn chwilio amdanynt yn llai aml ac yn barod i deithio ymhellach i'w prynu.

28.4 Yn draddodiadol, mae darpariaeth siopa wedi esblygu yn hierarchaeth o ganolfannau gyda dalgylchoedd yn gorgyffwrdd y naill a'r llall i adlewyrchu eu maint a'u pwysigrwydd. O ran darpariaeth adwerthu, dyma'r patrwm sy'n nodweddu Sir Gaerfyrddin, gyda chanolfannau mwy Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman yn gwasanaethu dalgylchoedd mwy yn y gorffennol, gan gynnig ystod eang ac arbenigol o nwyddau ac eitemau.

28.5 Wrth ddiffinio hierarchaeth adwerthu, rhoddwyd sylw i rolau a swyddogaethau perthynol y trefi mwy a'r pentrefi bach. Cydnabyddir, yn hyn o beth, er bod ystod y ddarpariaeth siopa ar hyd a lled yr hierarchaeth yn chwarae rhan hanfodol, ym Mhrif Ganolfannau Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman y ceir ffocws gweithgarwch adwerthu canol tref. Y canolfannau hyn yw'r prif gyrchfannau siopa am nwyddau cymharol (nid bwyd) ac maent yn darparu ar gyfer siopa am brif fwyd a swmp-brynu bwyd a siopa am fwydydd (groser). Mae gan ganol trefi llai eraill ystod a dewis cyfyngedig o siopau nwyddau cymharol ac maent yn darparu'n bennaf ar gyfer siopa am fwyd ychwanegol a siopa am fwydydd (groser). Fodd bynnag, mae'r polisi hefyd yn ceisio cydnabod yr effaith y mae Covid-19 a'r newid mewn patrymau siopa wedi'i chael ar ein stryd fawr a chanol ein trefi. Yn hyn o beth, mae'r polisi yn ceisio adlewyrchu eu swyddogaeth adwerthu gynhenid gan gydnabod rôl amlswyddogaethol newydd ar gyfer canolfannau o'r fath.

28.6 Mae'r Astudiaeth Adwerthu Gyfredol (2023) ar gyfer Sir Gaerfyrddin (Dogfen Gyflwyno CSD99) yn archwilio materion adwerthu, hamdden a chanol trefi ar draws y Sir, ac yn asesu'r capasiti ar gyfer twf ar draws y sectorau adwerthu, bwyd/diod a hamdden masnachol. Caiff ei llunio er mwyn darparu tystiolaeth yn gysylltiedig â ffurfio polisi, ac i fod yn sail ar gyfer pennu hierarchaeth adwerthu ar gyfer ardal y Cynllun er mwyn llywio penderfyniadau, fel sy'n ofynnol ym Mholisi Cynllunio Cymru. O ganlyniad i hynny, defnyddir yr egwyddor "canol trefi yn gyntaf" ar y cyd â dull dilyniannol o

ddewis safleoedd i hyrwyddo canol trefi fel prif leoliadau cyfleusterau adwerthu, swyddfa, hamdden ac iechyd newydd.

29. **Beth yw strategaeth/fframwaith polisi'r CDLl ar gyfer y meysydd canlynol:**

**a) Y Gymraeg**

29.1 Mae Cyfrifiad 2021 yn dynodi bod 17.8% o boblogaeth Cymru’n gallu siarad Cymraeg, tra bod y ffigur cyfatebol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn 39.9%. O ran dadansoddiad daearyddol o gyfran y siaradwyr ledled y Sir, mae ar ei hisaf yn ward Tyisha lle mae 18.9% yn siarad Cymraeg, ac ar ei huchaf ym Mhontyberem lle mae 60.7% yn siarad Cymraeg. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws pob ward yn y Sir.

29.2 Mae'r CDLl Diwygiedig yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin a'r rhan y mae'n ei chwarae ym mywydau bob dydd y boblogaeth. Mae'n cyfrannu'n sylweddol at gymeriad a hunaniaeth ddiwylliannol y Sir ac i adlewyrchu ei phwysigrwydd, mae'r Gymraeg yn thema gyffredin drwy gydol y cynllun a danlinellwyd gan Amcan Strategol 11 sy'n ceisio '*Helpu i warchod, gwella a hyrwyddo'r Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol unigryw'r Sir ynghyd â’i hasedau a’i gwead cymdeithasol’*.

29.3 Fel sydd wedi'i ymgorffori yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, cynhaliwyd hefyd Asesiad pwrpasol o'r Effaith ar y Gymraeg i asesu effeithiau disgwyliedig y Cynllun ar y Gymraeg (gweler Atodiad H). Mae'r asesiad yn nodi methodoleg ar gyfer asesu effaith yn seiliedig ar 2 brif ystyriaeth – maint yr effaith / canlyniadau dros gyfnod y cynllun a hefyd y tebygolrwydd y bydd yr effaith honno neu'r canlyniad yn digwydd. Defnyddiwyd y dull hwn ar gyfer asesu effaith i ystyried effeithiau disgwyliedig yr Ail CDLl Diwygiedig Adneuo, gan edrych yn benodol ar y strategaethau twf a gofodol a'r polisïau. Wrth gymhwyso'r fethodoleg hon i'r asesiad, rhoddir ystyriaeth i'r cyd-destun ehangach gan edrych yn gyfannol ar ffactorau a dylanwadau eraill ar y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin a sut y gallant effeithio ar yr iaith o fewn oes y Cynllun.

29.4 Mae Polisi SP8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru yn nodi y bydd y Cynllun yn cefnogi cynigion sy'n diogelu, yn hyrwyddo ac yn gwella buddiannau'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n nodi'r sir gyfan fel ardal o sensitifrwydd ieithyddol o ystyried nifer y siaradwyr Cymraeg o'i mewn a'r rôl bwysig y gallai ei chwarae i helpu i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

29.5 Mae canllawiau polisi pellach wedi'u cynnwys ym mholisi penodol WL1 Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd i gynorthwyo i gyflawni amcanion strategol y Cynllun ac i helpu i weithredu polisïau yn ystod y cam cais cynllunio. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol drafft hefyd yn cael ei baratoi i gefnogi'r gwaith o weithredu'r polisïau hyn.

### b) Ansawdd aer

29.6 Cydnabyddir ansawdd aer a'i oblygiadau o ran yr amgylchedd, iechyd ac ansawdd bywyd drwy ganllawiau cenedlaethol. Adlewyrchir hyn hefyd yn y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig ac aseswyd ei effeithiolrwydd yn y maes hwn yn erbyn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Rhagwelir y bydd llawer o'r polisïau yn y Cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar Ansawdd Aer, a rhagwelir y bydd y canlynol yn cael effaith gadarnhaol fawr:

- PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas;
- PSD4: Seilwaith Gwyrdd a Glas - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd;
- INF2: Cymunedau Iach;
- PSD12: Llygredd Golau ac Aer;
- Polisi Strategol – SP 14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol;
- Polisi CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan; a
- CCH7: Newid yn yr Hinsawdd – Fforestydd, Coetiroedd a Phlannu Coed.

29.7 Mae'r polisïau strategol a chyffredinol uchod yn darparu fframwaith ategol i ganolbwyntio ar gynaliadwyedd amgylcheddol, lleihau amlygiad i ansawdd aer gwael, diogelu a gwella ansawdd aer a diogelu amwynder preswyl a chymunedol.

29.8 Ceir tair Ardal Rheoli Ansawdd Aer ddynodedig yn y Sir (Llandeilo, Llanelli, a Chaerfyrddin). Gellir cyfeirio at Gynllun(iau) Gweithredu'r Cyngor, tra bod ffiniau'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer hyn yn cael eu dangos ar Fap Cyfyngiadau'r Cynllun.

29.9 Dylai datblygwyr fod yn ymwybodol o bwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar â'r Cyngor, yn enwedig o ran y gofyniad posibl ar gyfer cynnal Asesiad Ansawdd Aer. Er nad yw'r Cynllun yn rhagnodol mewn perthynas â'r achosion lle bydd angen asesiad o'r fath, ystyrir bod graddfa a lleoliad y cynnig yn benderfynyddion allweddol yn hyn o beth. Dylai unrhyw Asesiad Ansawdd Aer dynnu sylw at y mesurau lliniaru gofynnol fel

bod unrhyw risgiau i amwynder, bioamrywiaeth ac iechyd yn cael eu cyfryngu'n addas. Dylai nodi mesurau lliniaru o'r fath geisio adlewyrchu'r cyfleoedd a ddarperir gan seilwaith gwyrdd a glas fel rhan o ddull creu lleoedd. Dylid cyfeirio at Bolisi PSD3: Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a Glas.

### c) Rhwydweithiau Bioamrywiaeth ac Ecolegol

29.10 Mae gan Sir Gaerfyrddin amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol, gyda nifer o safleoedd wedi'u dynodi a rhywogaethau gwarchodedig. Mae Polisi Strategol SP14 yn ceisio adnabod safon a gwerth yr amgylchedd naturiol a thirweddau ar draws ardal y Cynllun, a'u rôl sylfaenol wrth ddiffinio hunaniaeth, cymeriad a nodweddion unigryw'r Sir. Ymhlyg yn hyn mae cydnabyddiaeth o rinweddau sylweddol seilwaith gwyrdd a glas ar gyfer lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, ar gyfer dal a storio carbon ac ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol.

29.11 Mae amddiffyn a gwella bioamrywiaeth ac ecoleg yn ffurfio rhan bwysig o Strategaeth y CDLl, sy'n ceisio adlewyrchu nid yn unig y dynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol hynny, ond hefyd gyfraniad safleoedd a thirweddau ar y lefel leol. Mae diogelu a gwella cysylltedd ecolegol, a'r cyfraniad mae'n ei wneud i ansawdd tirwedd, amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin, yn un o ystyriaethau pwysig y polisi hwn.

29.12 Mae Polisïau NE2 ac NE3 yn diogelu bioamrywiaeth ac ecoleg ymhellach ac yn ceisio sicrhau bod y cynefinoedd a'r rhywogaethau a nodir yn Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (yn ogystal â choridorau ecolegol, rhwydweithiau, a nodweddion unigryw) yn cael eu diogelu'n addas rhag datblygu niweidiol a bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaeth i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Yn ogystal, mewn perthynas â bioamrywiaeth ddyfrol, mae diogelu ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr hefyd wedi bod yn ystyriaethau allweddol wrth ddatblygu fframwaith polisi'r Cynllun, yn enwedig yng ngoleuni canllawiau ffosffad. Gan ddiweddu gyda CCH4, caiff ymagwedd y Cynllun tuag at ffosffadau ei chrynhoi yn y papur pwnc cysylltiedig.

29.13 Mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd a Glas pwrpasol hefyd wedi'i baratoi i helpu i ddiogelu rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a Glas yn ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol a dylanwadu ar y modd y cânt eu rhoi ar waith. Ynghyd â'r polisïau a grybwyllwyd

uchod, mae'n gosod y sylfaen ar gyfer ymagwedd ragweithiol a chyfannol tuag at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Er mwyn annog y defnydd o Seilwaith Gwyrdd a Glas wrth gynllunio, dylunio a rheoli defnydd tir, bydd canllawiau cynllunio atodol ar PSD4 hefyd yn cael eu llunio. Bydd hyn yn golygu bod modd gwarantu bod pob cynllun ar gyfer datblygiad yn cynnwys Seilwaith Gwyrdd a Glas amlswyddogaethol fel elfen hanfodol a phwysig, yn unol â PPW12. Ymhellach, cyfeirir hefyd at y papur pwnc perthnasol sy'n pennu fframwaith polisi'r Cynllun ar gyfer diogelu adnoddau pridd.

### d) Yr Amgylchedd Hanesyddol

29.14 Mae gan Sir Gaerfyrddin dreftadaeth adeiledig hanesyddol a diwylliannol gyfoethog ac amrywiol, gydag amrediad o Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig. Mae cydnabod treftadaeth adeiledig ardal y cynllun a'i diogelu yn hanfodol, gan ddarparu teimlad o hanes, cymeriad ac ymdeimlad o le.  Mae Polisi Strategol SP15 wedi'i baratoi yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru (Pennod 6), a TAN 24, sy'n rhoi arweiniad penodol ar sut y dylid ystyried yr amgylchedd hanesyddol wrth baratoi cynlluniau a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ac adeiladau rhestredig.

29.15 Dylai adeiladau, trefwedd a thirwedd hanesyddol y sir gael eu hystyried yn asedau a'u diogelu a'u gwella mewn modd cadarnhaol er budd trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Nid newid ac esgeulustod yn unig sy'n effeithio ar y rhain ond hefyd newidiadau i'w lleoliad. O'r herwydd, mae'n bwysig ystyried hyn wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chynigion mae'n bosibl y byddant yn cael effaith.

29.16 Mae Polisi BHE1 yn mynnu y bydd cynigion mewn perthynas ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth ond yn cael eu caniatáu os ydynt yn cydymffurfio â meini prawf penodol sy'n ceisio cadw neu wella eu cymeriad pensaernïol arbennig a'u diddordeb hanesyddol.  Dylai datblygiadau newydd mewn ardaloedd cadwraeth fod â dyluniad o safon uchel sy'n ymateb i nodweddion a phriodweddau arbennig yr ardal.

### e) Mwynau

29.17  Mae'r polisïau mwynau o fewn y Cynllun wedi'u hysgrifennu i gyd-fynd â pholisi cenedlaethol, sef Polisi Cynllunio Cymru (PPW) a'r Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (MTANs) - MTAN1: Agregau ac MTAN2: Glo.

29.18 Polisi Strategol SP18: Adnoddau Mwynol yw'r polisi strategol ar gyfer mwynau o fewn y Cynllun ac mae'n cynnwys holl brif elfennau cynllunio mwynau o fewn polisi hollgynhwysol. Mae tri pholisi pellach yn ymdrin â meysydd pwnc mwy penodol gan gynnwys Cynigion Mwynau, Clustogfeydd ac Ardaloedd Diogelu Mwynau.

29.19 Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru – Ail Adolygiad (RTS2) (Medi 2020) yn nodi'r cyfraniad y dylai pob awdurdod lleol cyfansoddol ei wneud tuag at fodloni'r galw rhanbarthol am agregau (creigiau mâl, a thywod a graean).

29.20 Ar gyfer creigiau mâl, mae Sir Gaerfyrddin yn rhan o Is-ranbarth Dinas Abertawe, ynghyd ag awdurdodau lleol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Er nad yw Abertawe ar hyn o bryd yn gallu dangos anallu i ddiwallu dosraniadau RTS2, mae mwy na digon o gronfeydd wrth gefn o fewn Castell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin i wneud y dosraniad ar y cyd o fewn y cyfnod hwn heb arwain at danddarpariaeth. Lluniwyd datganiad cydweithio is-ranbarthol (SSRC) sy'n dangos sut mae'r Awdurdodau cyfansoddol yn bodloni gofynion RTS2 mewn perthynas â darpariaeth creigiau wedi'u malu yn y dyfodol.

29.21 O ran darparu tywod a graean, rhaid nodi bod yr Adolygiad Cyntaf o'r RTS (RTS1) wedi awgrymu y byddai gwerth mewn datblygu dull cyfun o ddosraniadau a dyraniadau yn y dyfodol rhwng Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Er bod Sir Gaerfyrddin mewn is-ranbarth ar wahân (oherwydd y farchnad ar gyfer creigiau mâl yn ardal Abertawe yn bennaf), argymhellir yn RTS2 y dylai'r trefniadau cydweithio hyn [a awgrymir yn RTS1] barhau, o ran tywod a graean. Felly, mae dull ar y cyd yn cael ei ddilyn gan Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin ar gyfer darparu'r gofyniad dyrannu ar gyfer 3.626 miliwn tunnell dros y cyfnod hyd at 2038. Cyfeirir at y Datganiad Sefyllfa sy'n nodi'r

29.22 Os na fydd y dyraniadau ar gyfer tywod a graean yn y tri awdurdod cyfansoddol yn ddigonol i fodloni'r 3.626 miliwn tunnell dros y cyfnod hyd at 2038, nodwyd 'ardal o chwilio' ar gyfer tywod a graean ar y map cynigion (gydag ardaloedd pellach yn cael eu nodi gan Sir Benfro a Cheredigion yn eu CDLlau Diwygiedig priodol). Ymhellach, mae datganiad o gydweithio is-ranbarthol (SSRC) yn cael ei lunio a fydd yn dangos sut y bydd yr Awdurdodau cyfansoddol yn bodloni gofynion RTS2 mewn perthynas â

darpariaeth tywod a graean yn y dyfodol.  Cyfeirir at y Datganiad Sefyllfa dros dro ar gyfer cydweithio is-ranbarthol (Dogfen Gyflwyno rhif CSD67).

29.23 Cyfeirir at y Papur Pwnc ar Fwynau i gael rhagor o wybodaeth gefndirol am y maes pwnc hwn (Dogfen Gyflwyno CSD84)

### f) Rheoli Gwastraff

29.24 Mae'r polisïau mwynau o fewn y Cynllun wedi'u hysgrifennu i gyd-fynd â pholisi cenedlaethol, sef Polisi Cynllunio Cymru (PCC) a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21: Gwastraff a'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff (WPMR).

29.25 Polisi Strategol SP19: Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy yw'r polisi strategol ar gyfer gwastraff o fewn y Cynllun ac mae'n cynnwys y darpariaethau sydd eu hangen i hwyluso'r gwaith o reoli gwastraff yn gynaliadwy. Mae tri pholisi pellach yn ymdrin â meysydd pynciau mwy penodol, gan gynnwys darpariaeth rheoli gwastraff mewn datblygiadau newydd, cynigion tirlenwi, a gwaredu gwastraff anadweithiol ar dir amaethyddol.

29.26 Nodir y materion cynllunio y mae'n rhaid eu hystyried wrth baratoi ceisiadau ar gyfer datblygiadau gwastraff yn Atodiad C o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21. Ymhellach, wrth asesu cynigion ar gyfer pob math o gyfleusterau rheoli gwastraff, bydd angen i geisiadau ddangos sut y bydd y cynnig yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion yn y Strategaeth Wastraff Genedlaethol *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* a'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd. Dylid cyflwyno Asesiad Cynllunio Gwastraff gyda phob cais am gyfleuster gwastraff a ddosberthir yn gyfleuster gwaredu, adfer neu ailgylchu. Dylai'r Asesiad Cynllunio Gwastraff fod yn briodol ac yn gymesur â natur, maint a graddfa'r datblygiad arfaethedig.

29.27 Mae gweithio rhanbarthol, sy'n cynnwys nifer o awdurdodau lleol, yn hanfodol wrth gynllunio ar gyfer rheoli gwastraff. Mae TAN21 yn nodi'r grwpiau rhanbarthol a'r angen i Awdurdod Arweiniol lunio Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff blynyddol (WPMR). Mae Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff yn ddarn pwysig o dystiolaeth sy'n nodi'r angen rhanbarthol [neu ddiffyg angen] am gyfleusterau trin gwastraff gweddilliol. Mae Sir Gaerfyrddin yn rhan o ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru (ynghyd â Phowys, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro a Cheredigion).

Mae Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth ystyried cynigion ar gyfer cyfleusterau trin gwastraff gweddilliol newydd yn y rhanbarth.

### g) Ynni adnewyddadwy a charbon isel

29.28 Mae Polisi Strategol 16: Newid yn yr Hinsawdd yn ceisio sicrhau bod cynigion yn ystyried eu heffaith ar yr hinsawdd. Bydd Polisïau SP16, CCH1: Ynni Adnewyddadwy gydag Ardaloedd a Aseswyd o Flaen Llaw ac Ardaloedd Chwilio Lleol, ac CCH2: Ynni Adnewyddadwy y tu allan i Ardaloedd a Aseswyd o Flaen Llaw a'r Ardal Chwilio Leol yn cefnogi'r gwaith o gyflenwi ynni adnewyddadwy a charbon isel yn ardal y Cynllun mewn modd sy'n gyson â Pholisi Cynllunio Cymru. Mae'r polisïau'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod datblygiadau newydd yn ymgorffori datrysiadau dylunio priodol sy'n ymateb i'r hinsawdd ac yn cefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy priodol.

29.29 Cwblhawyd Asesiad Ynni Adnewyddadwy i lywio a darparu tystiolaeth ar gyfer polisïau CCH1 a CCH2 a oedd yn nodi'r potensial ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn yr ardal.

### h) Trafnidiaeth, a

29.30 Mae Polisi Strategol SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy yn pwysleisio pwysigrwydd cysylltiadau trafnidiaeth effeithiol wrth greu lleoedd effeithiol a chynaliadwy.

29.31 Mae Polisi SP12 yn mynnu y dylai pob datblygiad gyfrannu at neu greu cyfleoedd ar gyfer Teithio Llesol a mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus. Mae hefyd yn nodi y dylai pob datblygiad newydd fod yn hygyrch ac yn integredig gan alluogi hydreiddedd a rhwyddineb symud sy’n hybu buddiannau cerddwyr, beicwyr a thrafnidiaeth gyhoeddus sy’n sicrhau rhwyddineb mynediad i bawb. Bydd hyn yn hyrwyddo llai o ddefnydd o'r car preifat trwy sicrhau bod egwyddorion teithio llesol yn ddewis amgen credadwy a mwy deniadol. Bydd hyn yn caniatáu'r newid sydd ei angen o ddefnyddio dulliau trafnidiaeth anghynaliadwy ac yn creu ffyrdd iachach o fyw i breswylwyr gan hefyd leihau effaith allyriadau sy'n deillio o drafnidiaeth.

### i) Rhwymedigaethau Cynllunio.

29.32 Bydd Rhwymedigaethau Cynllunio yn cael eu defnyddio lle bo angen i sicrhau bod sylw llawn yn cael ei roi i effeithiau datblygu i wneud datblygiad yn dderbyniol

(Rhwymedigaethau Cynllunio Polisi INF1). Mae'r Cynllun yn gofyn am gyfraniadau i gyflawni neu gyllido gwelliannau i seilwaith, cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau a chyfleusterau eraill i fynd i'r afael â gofynion polisi neu effeithiau sy'n deillio o ddatblygiadau newydd. Bydd y rhwymedigaethau cynllunio sydd eu hangen yn cael eu hystyried fesul achos yn ddarostyngedig i natur y cynnig a'r gofynion sy'n codi ohono. Gall fod achosion lle na ellir sicrhau'r holl rwymedigaethau sy'n ofynnol oherwydd eu heffaith ar hyfywedd ariannol y cynllun. Mewn achosion o'r fath, bydd angen nodi'r blaenoriaethau seilwaith ar gyfer y safle hwnnw. Er bod y blaenoriaethau'n gallu amrywio yn ôl anghenion penodol pob safle a'u cymunedau, dylid nodi y bydd gofynion Polisi NE4 Datblygiad o fewn Ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr yn cael eu blaenoriaethu uwchlaw cyfraniadau eraill mewn perthynas â safleoedd o fewn Ardal y Canllawiau Cynllunio Atodol, yn unol â'r argymhellion a wnaed yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Ym mhob achos arall, ystyrir yn gyffredinol mai'r flaenoriaeth i'r Awdurdod fydd darparu tai fforddiadwy ac yn y rhan fwyaf o achosion bydd ei ddarpariaeth yn cael ei blaenoriaethu uwchben cyfraniadau eraill.

29.33 Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol Rhwymedigaethau Cynllunio a Chanllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy yn cael eu datblygu i ddarparu arweiniad ac eglurder ychwanegol ac i gefnogi'r gwaith o weithredu'r CDLl diwygiedig.

30. **A yw'r CDLl yn darparu fframwaith monitro a fydd yn galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i olrhain gweithrediad y strategaeth a'r polisïau yn flynyddol ac, os oes angen, sbarduno adolygiad?**

30.1 Ydy, mae pennod 12 y Cynllun Adneuo yn nodi'r canllawiau Monitro a Gweithredu ar gyfer y CDLl. Mae'r Fframwaith Monitro sydd wedi'u gynnwys ynddo yn nodi cyfres o ddangosyddion, targedau a phwyntiau sbarduno ar gyfer gweithredu i fonitro'r gwaith o gyflawni polisïau ac Amcanion Strategol y Cynllun. Bydd y rhain yn cael eu monitro, eu hadrodd a'u hadolygu bob blwyddyn drwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol a chaiff camau priodol eu cymryd yn ôl yr angen fel y nodir yn Nhabl 12: Canlyniadau Monitro'r Cynllun Adneuo.

30.2 Yn ogystal â'r uchod, cynigir fframwaith monitro yn yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (fel y'i diwygiwyd gan Gyf. 19 o'r Adendwm i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig) i fodloni gofynion Erthygl 17 o *Reoliadau Asesu Cynlluniau*

*a Rhaglenni Amgylcheddol (Cymru) 2004*. Mae hyn er mwyn sicrhau bod modd adfer unrhyw effeithiau andwyol annisgwyl. Mae pwyntiau sbarduno ar gyfer camau adferol wedi'u hamlinellu yn Nhabl 25 yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal yn flynyddol, ac ar y cyd â'r Adroddiad Monitro Blynyddol.